# Dadansoddi a chefnogi chwarae hunangyfeiriedig yn unol â theorïau gwaith chwarae cyfredol

## Trosolwg

Mae a wnelo'r safon hon â nodi anghenion chwarae a dewisiadau plant a phobl ifanc, ac annog a chefnogi'r gwaith o ddatblygu mannau chwarae o fewn y lleoliad gwaith chwarae a fydd yn diwallu anghenion a dewisiadau plant a phobl ifanc wrth chwarae.

**Prif ddeilliannau'r safon hon ydy:**

1. dadansoddi gwybodaeth am anghenion a dewisiadau chwarae
2. cefnogi chwarae hunangyfeiriedig

Mae'r safon hon ar gyfer gweithiwr chwarae sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc mewn lleoliad gwaith chwarae  sydd â'r nod pennaf o ddarparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc chwarae fel maen nhw'n dewis ac yn dymuno ei wneud. Mae'r safon hon ar gyfer staff sydd â rhywfaint o gyfrifoldeb am y lleoliad chwarae ac eraill sy'n gwneud cyfraniad mawr i gefnogi chwarae.

**Mae'r safon hon yn ategu'r Egwyddorion Gwaith Chwarae. Mae angen i weithwyr chwarae fod yn gyfarwydd â'r rhain, a lle bo'n bosib, eu defnyddio wrth eu gwaith ac wrth fyfyrio.  **

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

**Dadansoddi gwybodaeth am anghenion a dewisiadau chwarae**

1. casglu gwybodaeth am chwarae plant a phobl ifanc gan ddefnyddio amryw o **ddulliau**
2. dadansoddi gwybodaeth i nodi anghenion a dewisiadau chwarae plant a phobl ifanc
3. ymgynghori â phlant a phobl ifanc ac ystyried eu syniadau ynglŷn ag anghenion a dewisiadau chwarae
4. ymchwilio a nodi nifer o **leoedd chwarae**, deunyddiau ac adnoddau a fydd yn diwallu anghenion chwarae plant a phobl ifanc

**Cefnogi chwarae hunangyfeiriedig**

5. cefnogi'r gwaith o greu **mannau chwarae** i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc, y gallan nhw eu haddasu i ddiwallu eu hanghenion a'u dewisiadau eu hunain
6. rhoi cymorth i blant a phobl ifanc ddewis ac archwilio'r amryw **fannau chwarae** eu hunain
7. bodloni polisïau a gweithdrefnau cyfreithiol a sefydliadol wrth greu **mannau chwarae**
8. gadael cynnwys a bwriad y chwarae i'r plant a'r bobl ifanc
9. defnyddio sawl arddull ymyrraeth i gefnogi chwarae hunangyfeiriedig
10. cynnal fframiau chwarae y plant a'r bobl ifanc pan fydd angen
11. arsylwi ar chwarae ac ymateb i giwiau chwarae yn ôl y cam yn y cylch chwarae
12. cefnogi plant a phobl ifanc i brofi **heriau ac ansicrwydd** ac ymyrryd dim ond pan fydd angen

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

**Dadansoddi gwybodaeth am anghenion a dewisiadau chwarae**

1. yr Egwyddorion Gwaith Chwarae sy'n rhan o fframwaith proffesiynol a moesegol gwaith chwarae a sut mae modd cymhwyso pob un o'r egwyddorion i'ch gwaith chi.
2. gwaith ymchwil o ddisgyblaethau eraill sy'n llywio ein dealltwriaeth o fuddion chwarae yn y tymor hir a'r tymor byr
3. yr offer a'r fframweithiau y gellir eu defnyddio er mwyn casglu a gwerthuso gwybodaeth am brofiadau chwarae plant a phobl ifanc
4. y gall y lleoliad chwarae helpu plant a phobl ifanc i ddeall eu hunain a'r byd o'u cwmpas
5. y **mathau o chwarae** sy'n darparu dewis eang o brofiadau chwarae sy'n cael eu derbyn yn gyffredinol mewn gwaith chwarae
6. y **mathau o chwarae** a'r **disgrifwyr hwyliau** sy'n gysylltiedig â chwarae a sut i'w hadnabod
7. sut i adnabod hwyliau plant a phobl ifanc
8. prif gamau datblygiad plentyn a sut mae'r rhain yn effeithio ar anghenion ac ymddygiad chwarae plant
9. pwysigrwydd defnyddio amryw o **ddulliau** i ddadansoddi anghenion a dewisiadau chwarae plant
10. y rhwystrau i fynediad, gan gynnwys anabledd ymhlith eraill, y gall rhai plant a phobl ifanc eu hwynebu a sut i fynd i'r afael â'r rhain
11. sut mae gwahanol fathau o **fannau chwarae**, deunyddiau ac adnoddau yn gallu diwallu anghenion a dewisiadau plant a phobl ifanc

**Cefnogi chwarae hunangyfeiriedig**

1. pwysigrwydd cefnogi'r gwaith o greu **mannau chwarae** y gall plant a phobl ifanc eu haddasu i ddiwallu eu hanghenion a'u dewisiadau
2. ffyrdd o gynnig cymorth i blant a phobl ifanc ddewis ac archwilio'r amryw **fannau chwarae** drostyn nhw eu hunain a phwysigrwydd gwneud hyn
3. nodi ffyrdd o gynllunio a chael y deunyddiau ac adnoddau sydd eu hangen ar gyfer amryw o **fannau chwarae** gwahanol
4. y polisïau a'r gweithdrefnau cyfreithiol, rheoleiddio a sefydliadol cyfredol mewn perthynas ag iechyd a diogelwch yn y **mannau chwarae** a sut ydych chi'n eu

hystyried

5. pwysigrwydd gadael cynnwys a bwriad y chwarae i'r plant a'r bobl ifanc eu hunain
6. y mathau o gymorth y bydd arnoch angen eu darparu, a sut i benderfynu pryd y mae'n addas i wneud hynny, pan fydd plant a phobl ifanc yn wynebu **heriau ac ansicrwydd**
7. amryw o ddulliau ymyrraeth ar gyfer cefnogi chwarae hunangyfeiriedig
8. sut i nodi a diffinio ffrâm chwarae
9. prif gamau'r cylch chwarae
10. sut i adnabod ciwiau chwarae ac ymateb iddyn nhw
11. pam dylid rhoi cyfle i blant a phobl ifanc brofi **heriau ac ansicrwydd** a phwysigrwydd cefnogi cymryd risigau derbyniol wrth chwarae

## Cwmpas/Ystod cysylltiedig â meini prawf perfformiad

**Dulliau**

1. arsylwi ar y man chwarae a'r lleoliad gwaith chwarae
2. arsylwi ar /a rhyngweithio rhwng plant a phobl ifanc
3. trafodaeth gyda rhieni a / neu ofalwyr
4. myfyrio gyda staff eraill
5. ymgynghori; ffurfiol ac anffurfiol

**Man(nau) chwarae**

1. ffisegol
2. affeithiol
3. dros dro
4. parhaol
5. seiber

**Heriau ac ansicrwydd**

1. corfforol
2. emosiynol
3. ymddygiad
4. amgylcheddol

## Cwmpas/Ystod cysylltiedig â  gwybodaeth a dealltwriaeth

**Mathau o chwarae**

1. chwarae cyfathrebu
2. chwarae creadigol
3. chwarae dwfn
4. chwarae dramatig
5. chwarae archwiliadol
6. chwarae ffantasi
7. chwarae llawn dychmyg
8. chwarae ymsymudol
9. chwarae meistrolgar
10. chwarae gwrthrych
11. chwarae rôl
12. chwarae sgarmes
13. chwarae cymdeithasol
14. chwarae sosi-dramatig
15. chwarae symbolaidd
16. chwarae ailddangosol

**Disgrifwyr hwyliau**

1. hapus
2. annibynnol
3. hyderus
4. allgarol
5. ymddiriedus
6. cytbwys
7. gweithredol neu wedi'i drochi
8. tawel ei feddwl

*

*

**Dulliau**

1. arsylwi ar y lle chwarae a'r lleoliad gwaith chwarae
2. arsylwi ar / a rhyngweithio rhwng plant a phobl ifanc
3. trafodaeth gyda rhieni a / neu ofalwyr

4. myfyrio gyda staff eraill
5. ymgynghori; ffurfiol ac anffurfiol

**Man(nau) chwarae**

1. ffisegol
2. affeithiol
3. dros dro
4. parhaol
5. seiber

**Heriau ac ansicrwydd**

1. corfforol
2. emosiynol
3. ymddygiad
4. amgylcheddol

## Gwerthoedd

Mae'r Gweithwyr Chwarae oedd yn rhan o ysgrifennu'r safon hon, law yn llaw â SkillsActive, wedi cytuno i fabwysiadu'r canlynol fel y gwerthoedd fydd yn berthnasol i bawb sy'n gweithio yn y sector gwaith chwarae.

**Egwyddorion Gwaith Chwarae**

Mae'r Egwyddorion hyn yn sefydlu fframwaith proffesiynol a moesegol ar gyfer gwaith chwarae ac mae angen felly eu hystyried yn eu cyfanrwydd. Maen nhw'n disgrifio'r hyn sy'n unigryw am chwarae a gwaith chwarae, ac yn rhoi sylw i weithio gyda phlant a phobl ifanc o safbwynt gwaith chwarae. Mae'r safonau yn seiliedig ar y gydnabyddiaeth y bydd modd i blant a phobl ifanc ddatblygu'n well os cawn nhw'r dewis ehangaf posib o gyfleoedd chware a mannau i chwarae ynddyn nhw.

1.
Mae angen i bob plentyn a pherson ifanc chwarae. Mae chwarae yn rhywbeth greddfol a chynhenid. Mae chwarae yn anghenraid biolegol, seicolegol a chymdeithasol, ac mae'n hanfodol i les a datblygiad pobl a chymunedau.
2.
Mae chwarae yn broses wirfoddol, bersonol ac yn cael ei wneud er ei fwyn ei hun. Hynny ydy, mae plant a phobl ifanc yn penderfynu ac yn siapio beth a pham maen nhw'n chwarae, drwy ddilyn eu cyneddfau, eu syniadau a'u diddordebau eu hunain, yn eu ffordd eu hunain ac am eu rhesymau eu hunain.

3. Prif amcan a hanfod gwaith chwarae ydy cefnogi a hwyluso'r broses o chwarae. Dylai hyn ddylanwadu ar ddatblygiad polisïau, strategaethau, hyfforddiant ac addysg yn ymwneud â chwarae.

1.
Y broses chwarae sydd bwysicaf i weithwyr chwarae, ac maen nhw'n eiriol dros chwarae wrth ymwneud â sefyllfaoedd sy'n edrych ar bethau drwy lygaid oedolion.
2.
Swyddogaeth y gweithiwr chwarae ydy cefnogi pob plentyn a pherson ifanc i greu man lle mae modd iddyn nhw chwarae.
3.
Mae ymateb gweithwyr chwarae i'r ffordd mae plant a phobl ifanc yn chwarae yn seiliedig ar ddealltwriaeth gadarn a chyfoes o'r broses chwarae, ac o adlewyrchu ar eu profiadau eu hunain.
4.

Mae gweithwyr chwarae yn adnabod yr effaith maen nhw'n ei chael ar y lle chwarae ac hefyd yr effaith mae chwarae'r plant a'r bobl ifanc yn ei gael ar y gweithiwr chwarae.

5.

Mae gweithwyr chwarae yn dewis ymyrryd mewn ffordd sy'n caniatáu i blant a phobl ifanc ehangu eu chwarae. Pob tro mae gweithiwr chwarae yn ymyrryd, rhaid iddo gydbwyso'r perygl o wneud hynny gyda'r fantais i les a datblygiad y plant.

Caiff yr Egwyddorion Gwaith Chwarae eu dal mewn ymddiriedaeth gan y Grŵp Craffu ar gyfer Proffesiwn Gwaith Chwarae y Deyrnas Gyfunol. Bu'r Grŵp Craffu yn gweithredu fel canolwr di-duedd ac yn goruchwylio'r broses ymgynghori lle cafodd y safonau eu llunio.

## Geirfa